

# Y deg awgrym gorau ar gyfer gwrych iach



## 1. Ei gadw'n drwchus

Mae canghennau sy'n cydbblethu'n agos yn eich gwrych yn darparu lleoedd nythu a chlwydo diogel i adar bach fel bronfreithod, llinosiaid, robinod cochion, llwydiaid y gwrych a drywod. Mae gwrychoedd agored yn tueddu denu piod, brain, colomennod a gwiwerod. Mae celyn yn blanhigyn gwrych da iawn sy'n ffurfio llwyni trwchus, cryno sy'n rhoi lloches ardderchog yn ystod y gaeaf.

## 2. Torri ar yr adeg gywir

Peidiwch â thocio eich gwrych tan ddiwedd y gaeaf os oes modd. Mae aeron a ffrwythau eraill mewn gwrychoedd yn darparu bwyd hanfodol i adar megis sogieir, esgyll cochion a bronfreithod eraill drwy gydol y gaeaf. Wrth dorri'n gynnar, bydd llai o fwyd ar gael i helpu'r adar hyn a bywyd gwyllt arall i oroesi cyfnod caletaf y flwyddyn. A pheidiwch byth â thorri yn ystod tymor nythu'r adar (1 Mawrth i 31 Awst) oni bai bod yn rhaid i chi wneud hynny, am resymau diogelwch.

## 3. Peidiwch â thorri'n rhy aml na'n rhy dynn

Er bod torri'n angenrheidiol er mwyn cadw gwrych yn drwchus, os yw'n cael ei dorri yn ôl at yr un pwynt bob blwyddyn, bydd yn cynhyrchu ychydig iawn o flodau neu aeron. Felly ceisiwch dorri dim ond unwaith bob dwy neu dair blynedd neu gadewch i'r gwrych dyfu allan ac i fyny ychydig bob tro. Dewis arall yw torri dim ond un ochr neu'r top bob blwyddyn. Os oes rhaid i chi dorri eich gwrych yn aml, ceisiwch adael ambell i goeden sy'n dwyn aeron neu ffrwythau i dyfu i aeddfedrwydd - gall un ddraenau wen aeddfed gynhyrchu cymaint o aeron â 200 metr o wrych sy'n cael ei dorri bob blwyddyn.

Er bod torri'n angenrheidiol er mwyn cadw gwrych yn

## 4. Anogwch llwyni brodorol

Mae llwyni sy'n tyfu'n naturiol ym Mhrydain yn darparu cynefin a bwyd ar gyfer llawer mwy o bryfed ac anifeiliaid na rhywogaethau a gyflwynwyd o dramor. Os gallwch chi, ceisiwch gynnwys amrywiaeth o rywogaethau gwahanol i ddarparu bwyd drwy gydol y flwyddyn - helyg a drain duon ar gyfer neithdar yn gynnar yn y tymor; drain gwynion, mieri a rhosod am flodau yn yr haf ac aeron yn yr hydref; iorwg am neithdar yn yr hydref ac aeron yn hwyr yn y gaeaf.

Mae llwyni sy'n tyfu'n naturiol ym Mhrydain



y goedwig hir  
long forest

## 5. Anogwch flodau a gweiriau wrth y bôn a'r ymylon

Mae gwrychoedd sydd â digon o lystyfiant wrth y bôn yn cefnogi llawer o fywyd gwyllt. Mae blodau megis briallu a blodau pengaled yn darparu neithdar a phaill i wenyn ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn buddiol eraill, ac mae gweiriau twmpathog yn darparu manau diogel i chwilod, pryfed cop ac yn y blaen yn ystod y gaeaf. Mae brogaod, llyffantod a madfallod yn hoffi tyfiant trwchus wrth fôn gwrychoedd ar gyfer bwyd, cysgod a manau i aeafgysgu. Mae'r draenog yn hoffi gorchudd trwchus hefyd!

## 6. Gofalwch am goed neu plannwch goed newydd

Os oes gennych le, bydd coed

aeddfed mawr, yn enwedig coed brodorol megis deri, ynn a ffawydd, yn cynyddu'n aruthrol y bywyd gwyllt sy'n defnyddio'r gwrych. Bydd pryfed yn ymgasglu o amgylch y corun ac o dan y canopi, gan ddarparu llawer o fwyd i adar ac ystlumod. Mae coed bach, megis celyn, crialof a choed afalau surion bach, yn werthfawr iawn hefyd, yn arbennig oherwydd eu blodau a'u cnydau toreithiog o aeron a ffrwythau.

## 7. Adnewyddu eich gwrych

Gellir cadw gwrychoedd yn drwchus am lawer o flynyddoedd drwy eu torri o bryd i'w gilydd, ond yn y pen draw bydd eu bonion yn dod yn agored. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen eu torri i lawr yn agos at lefel y ddaear fel y gallant dyfu cnewd o gyffion newydd a dechrau cylch newydd o dyfiant iach. (Ni fydd hyn yn gweithio yn achos conwydd nad ydynt yn ail-dyfu ar ôl eu torri i lawr.)

## 8. Wrth sefydlu gwrych newydd, cymerwch ofal i blannu rhywogaethau addas

rhwng cymdogion, yn digwydd oherwydd defnyddiwyd planhigion sy'n tyfu'n gyflym er mwyn cael canlyniadau cyflym, sydd yn fuan yn cynhyrchu gwrychoedd sy'n tyfu'n rhy uchel ac anodd eu cynnal. Meddyliwch yn ofalus ynghylch pam eich bod eisiau gwrych, ac am y safle, cyn dewis llwyni a choed.

Mae llawer o broblemau gyda gwrychoedd, gan gynnwys anghydfodau

## 9. Cysylltwch y gwrych â chynefinoedd bywyd gwyllt eraill a llenwch unrhyw fylchau

gwneud yn agored i ysglyfaethwyr. Os yw eich gwrych yn cysylltu â gwrychoedd eraill, neu goetir neu bwll, bydd yn darparu llwybr diogel i fywyd gwyllt symud drwy dirweddau gwledig a threfol. Mae ystlumod a phathewod ymhlith y llawer o greaduriaid sy'n casáu bylchau bach hyd yn oed.

Mae llawer o greaduriaid yn osgoi croesi manau agored oherwydd bod hyn yn eu

## 10. Archwiliwch eich gwrych

Cadwch olwg fanwl ar eich gwrych ac edrychwch i weld beth sy'n byw ynddo, a pha rannau o'r gwrych sy'n fwyaf deniadol i'r bywyd gwyllt rydych eisiau ei ddenu. Wedyn gallwch addasu eich rheolaeth yn unol â hynny. Cadwch gofnod o'r rhywogaethau a welwch.

Cadwch olwg fanwl ar eich gwrych ac edrychwch i

Gellir lawrlwytho cynnwys y pecyn hwn o [www.longforest.cymru/cy](http://www.longforest.cymru/cy) hefyd.

Am ragor o gymorth neu gyngor cysylltwch â [longforest@keepwalestidy.cymru](mailto:longforest@keepwalestidy.cymru)

Mae Cadwch Gymru'n Daclus, gan weithio mewn partneriaeth â Choed Cadw, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sefydliad Esmée Fairbairn, wedi datblygu prosiect y Goedwig Hir. Ynghyd, byddwn yn gweithredu'n ymarferol – gan recriwtio miloedd o wirfoddolwyr i blannu 100,000 o goed a gwella tua 120,000m o wrychoedd yng Nghymru.

Mae'r gyfres hon o lyfrynnau yn seiliedig ar y rhai mewn pecyn cynharach a gynhyrchwyd gan Hedgelink UK a Natural England. Rydym yn ddiolchgar am eu caniatâd caredig i atgynhyrchu eu deunydd yn y cyhoeddiad dwyieithog hwn, sydd wedi'i ddiweddarau a'i ddiwygio.

Argraffwyd ar ddeunydd wedi'i ailgylchu 100% gan ddefnyddio inciau llysieuol gan Symposium Print, Llandw, CF71 7PF [info@symposiumprint.co.uk](mailto:info@symposiumprint.co.uk)



**Funding raised by  
The National Lottery**  
and awarded by the Heritage Lottery Fund

**Cyllid a godwyd gan  
Y Loteri Genedlaethol**  
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri



**Esmée  
Fairbairn**  
FOUNDATION



cadwch keep  
gymru'n wales  
daclus tidy